

Gwirioneddau tragwyddol

“...yn ôl y datguddiad o’r dirgelwch a fu’n guddiedig ers oesoedd maith, ond sydd yn awr wedi ei amlygu trwy’r ysgrythurau proffwydol, ac wedi ei hysbysu ar orchymyn y Duw tragwyddol i’r holl Genhedloedd.” (ad. 25–26)

Beth am ddarlenn Rhufeiniaid 16:17–27 ac yna myfyrio

Yn ei lyfr *Your God is too Safe*, mae Mark Buchanan yn adrodd stori sydd, yn fy nhyb i, yn cyd-fynd yn hyfryd gyda’r hyn a ddywedwn am le y Beibl yn y gymdeithas Gristnogol.

Ar 22 Tachwedd 1963, roedd grŵp o actorion yn perfformio drama gan David Lodge mewn tref fechan yn yr Unol Daleithiau. Ynghanol y ddrama, yr oedd golygfa a oedd yn gofyn i un o’r actorion droi radio ymlaen a thiwnio i mewn i’r orsaf radio leol. Ar y noson hon, wrth i’r ddrama gael ei chyflwyno ac wrth i’r foment ddod i’r actor droi’r radio ymlaen, fe dorrodd llais ar draws y tawelwch: “Heddiw yn Dallas, Texas, saethwyd a lladdwyd yr Arlywydd John F. Kennedy.” Fe drodd yr actor y radio i fwrdd, ond yr oedd yn rhy hwyr. Roedd y bobl yn y theatr wedi clywed y neges ac roedd yr ychydig eiriau yna am farwolaeth yr arlywydd wedi golygu fod y ddrama wedi dod i ben. Llifodd y bobl allan o’r theatr er mwyn ceisio rhagor o wybodaeth. Daeth realiti’r byd real i mewn i fyd afreal drama, ac roedd y newyddion fod yr arlywydd wedi ei ladd yn newid y sefyllfa yn gyfan gwbl.

Fe ddywed Mark Buchanan nad oes ond yr un realiti sy’n ddigon mawr i dorri i mewn i ganol y dramâu yr ydym ni yn eu perfformio ac yn eu hysgrifennu, gyda diddordeb llwyr yn ein bywyd o ddydd i ddydd. Does ond un peth all dorri i mewn gan ein rhyddhau ni o’n dramâu personol – gair Duw ei hun. Mae realiti tragwyddoldeb yn mynd yn ddim yn ein bywyd pan nad yw gair Duw yn cael ei ddarlenn a’i dderbyn. Gallaf sicrhau pob un ohonoch o hyn: mae’r eglwysi hynny lle na chyhoeddir Gair Duw yn ei gyfoeth ac yn ei gyflawnder, yn ddiogel o fod yn llefydd â mwy o ddiddordeb ym mhethau amser nag ym mhethau tragwyddoldeb.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Luc 2:8–20; Actau 17:1–8

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth newidiodd fywyd y bugeiliaid?
2. Beth ddigwyddodd wrth i Paul esbonio’r Ysgrythurau?

Gweddi

O Dduw ein Tad, cynorthwya fi i drwytho fy meddwl â’th feddwl di, fel bod fy meddwl i yn cael ei feddiannu wryfwy â realiti tragwyddol. Yn enw Iesu. Amen.